Cyllid & Thollau EM

# Pobl hunangyflogedig gydag enillion bach

## Cyflwyniad

Mae'r ffurflen hon ar gyfer pobl hunangyflogedig gydag enillion bach. Bydd y nodiadau arweiniol yn eich helpu i benderfynu ynghylch gwneud cais am Dystysgrif Eithriad Enillion Bach. Os ydych yn penderfynu eich bod am wneud cais am dystysgrif, llenwch y ffurflen gais amgaeedig.

Bydd angen i chi gwblhau'r ffurflen CWF1 o hyd i gofrestru fel hunan fasnachwr hunangyflogedig. Os ydych mewn partneriaeth bydd angen i'r partner enwebedig gwblhau SA400 a SA401. Bydd angen i weddill y partneriaid gwblhau SA401.

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch ewch i **www.hmrc.gov.uk/selfemployed**

## Pam talu Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2?

Mae Cyfraniadau Dosbarth 2 yn cyfrif tuag at:

- Budd-dal Analluogrwydd/Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth
- Budd-daliadau profedigaeth
- Lwfans Mamolaeth.

Os ydych ond yn agored i Gyfraniadau Dosbarth 2, dylech ystyried eich sefyllfa'n ofalus cyn gwneud cais am Dystysgrif Eithriad Enillion Bach.

Os ydych yn gwneud cais am, ac yn derbyn eithriad rhag talu cyfraniadau, **efallai byddwch yn colli eich hawl i fudd-daliadau drwy beidio â thalu cyfraniadau Dosbarth 2**.

Er enghraifft, os nad ydych yn talu cyfraniadau ar gyfer unrhyw gyfnod, efallai bydd Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a gewch yn cael ei effeithio. Os ydych yn gadael gwraig weddw, gŵr gweddw neu bartner sifil, gall ef neu hi gael budd-dal ar gyfradd is neu dim budd-dal o gwbl.

Hyd yn oed os ydych yn derbyn Tystysgrif Eithriad Enillion Bach, gallwch dalu cyfraniadau Dosbarth 2 yn wirfoddol o hyd er mwyn cadw eich hawl i rai budd-daliadau.

Os ydych am dalu cyfraniadau Dosbarth 2 yn wirfoddol, dywedwch wrthym yn rhan 14 y ffurflen gais amgaeedig neu dychwelwch eich Tystysgrif Eithriad Enillion Bach gydag eitem 1 wedi ei chwblhau.

## Pwy sy'n talu cyfraniadau Dosbarth 2?

Os ydych yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn ac yn hunangyflogedig, mae'n rhaid i chi dalu Cyfraniadau Dosbarth 2, sydd ar hyn o bryd yn £2.50 yr wythnos, oni bai:

- eich bod dros oedran Pensiwn y Wladwriaeth. I gael gwybod eich oedran ar gyfer Pensiwn y Wladwriaeth ewch i **www.direct.gov.uk/statepension**
- mae hawl gennych i dalu cyfraniadau is fel gwraig briod neu weddw, neu
- rydych wedi gwneud cais am, ac wedi derbyn Tystysgrif Eithriad Enillion Bach ar gyfer y cyfnod dan sylw.

Bydd cyfraniadau a delir ar amser yn daladwy ar y gyfradd mewn grym ar yr amser roedd y cyfraniadau'n ddyledus. Os ydych yn talu cyfraniadau Dosbarth 2 mwy na blwyddyn yn hwyr efallai bydd angen i chi eu talu ar gyfradd uwch, sef y gyfradd uchaf mewn grym rhwng y dyddiad roedd y cyfraniadau'n ddyledus a'r dyddiad rydych yn eu talu.

**Yn hunangyflogedig yn amser eich hunan**

Mae angen i chi dalu cyfraniadau Dosbarth 2 os ydych yn hunangyflogedig yn amser eich hunan. Mae hyn yn berthnasol os ydych hefyd yn talu cyfraniadau sy'n gysylltiedig ag enillion Dosbarth 1 fel cyflogai, neu ddeiliad swydd. Nid oes rhaid i chi, fodd bynnag, dalu cyfraniadau Dosbarth 2 os ydych yn gwneud cais am, ac os caniateir, Tystysgrif Eithriad Enillion Bach i chi.

**Yn hunangyflogedig ac yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith**

Os ydych yn hunangyflogedig ac yn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) efallai y dyfarnir credydau JSA i chi ond byddwch yn parhau i fod yn agored i gyfraniadau Dosbarth 2.

Os, fodd bynnag, yw eich enillion o hunangyflogaeth islaw'r lefel eithriad enillion bach gallwch wneud cais am Dystysgrif Eithriad Enillion Bach. Os caiff ei ddyfarnu, ni fydd angen i chi dalu cyfraniadau Dosbarth 2.

## Amgylchiadau arbennig

**Diogelu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth**

Rydych angen 30 mlynedd cymwys er mwyn derbyn Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth llawn, ond fel cyfrannwr hunangyflogedig rydych yn dal i fod yn agored i dalu cyfraniadau Dosbarth 2 am yr amser yr ydych yn hunangyflogedig, hyd yn oed os oes eisoes gennych 30 mlynedd cymwys. Er hynny, nid yw'r rheolau ynglŷn â blynyddoedd cymwys yr un fath ar gyfer rhai budd-daliadau profedigaeth.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'ch Pensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol a budd-daliadau profedigaeth ewch i **www.direct.gov.uk**

O 6 Ebrill 2010 cafwyd gwared â Diogelwch Cyfrifoldeb Cartref (HRP) a rhoddwyd Credydau ar gyfer Rhieni a Gofalwyr yn ei le. Mae Credydau ar gyfer Rhieni a Gofalwyr yn cyfrif tuag eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ac ar gael i rai pobl sy'n derbyn Budd-dal Plant, gofalu am berson sâl neu anabl, neu sy'n ofalwyr maeth cymeradwy.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn â Chredydau ar gyfer Rhieni a Gofalwyr ewch i **www.direct.gov.uk**

**HRP**

Gallai cyfnodau HRP cyn 6 Ebrill 2010 fod wedi eu trosi i gredydau a fydd hefyd yn cyfrif tuag at eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a budd-daliadau profedigaeth.

**Dynion sy'n cyrraedd neu sydd dros 60**

Os yw eich enillion yn isel ac rydych yn 60 mlwydd oed neu'n hŷn, neu byddwch yn cyrraedd yr oedran hwnnw rhwng 6 Ebrill 2011 a 5 Ebrill 2012, gallai fod yn fuddiol i wneud cais am Dystysgrif Eithriad Enillion Bach.

Os caiff eithriad ei ddyfarnu i chi yn yr amgylchiadau hyn, rhoddir credydau cyfraniadau yn awtomatig i chi i ddiogelu eich Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth a budd-daliadau eraill. Ond ni ellir rhoi credydau os ydych yn treulio mwy na 182 o ddiwrnodau tramor o fewn blwyddyn.

Am ragor o wybodaeth am:

- Deddf Pensiynau 2007 a Deddf Pensiynau (Gogledd Iwerddon) 2008, ewch i **www.direct.gov.uk**
- Credydau Gofalwyr, ewch i **www.direct.gov.uk**
- HRP ewch i **www.hmrc.gov.uk**

## Budd-daliadau profedigaeth

Nid yw'r newidiadau yn y Ddeddf Pensiynau 2007 a Deddf Pensiynau (Gogledd Iwerddon) 2008 yn gymwys i'r rheolau ar gyfer budd-daliadau profedigaeth penodol. Am ragor o wybodaeth am fudd-daliadau profedigaeth, ewch i **www.direct.gov.uk**

## Enillion bach

**A oes gen i enillion bach?**

Ystyrir eich bod yn derbyn enillion bach ac efallai na fydd angen i chi dalu cyfraniadau Dosbarth 2 os yw eich enillion, hynny yw yr arian sydd weddill ar ôl treuliau:

- yn llai na £5,075 ar gyfer y cyfnod o 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011 ac/neu
- y disgwylir iddo fod yn llai na £5,315 yng nghyfnod y flwyddyn dreth o 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012.

## Cyfrifo'ch enillion

Mae eich hawl i Dystysgrif Eithriad Enillion Bach yn dibynnu ar gyfanswm eich enillion net o hunangyflogaeth fel y dangosir, er enghraifft, ar gyfrif elw a cholled.

**Ni allwch wneud cais am eithriad enillion bach os yw eich enillion o hunangyflogaeth yn ystod y cyfnod o 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012 wedi cyrraedd £5,315 erbyn yr amser rydych yn gwneud cais am eithriad.**

Os ydych yn hunangyflogedig mewn mwy nag un busnes, dylech adio'r enillion net o bob un fel y gellir gosod colled sy'n codi mewn un yn erbyn elw mewn un arall.

Peidiwch â chyfrif fel enillion unrhyw incwm o gynllun y Fargen Newydd neu o ffynonellau nad ydynt yn hunangyflogaeth.

I gyfrifo cyfanswm eich enillion net, tynnwch unrhyw dreuliau busnes a dalwch pan yn hunangyflogedig o'r enillion gros. Er enghraifft, gallwch ddidynnu rhent a threth gyngor, yswiriant, cyflogau cyflogeion, costau argraffu a deunydd ysgrifennu, atgyweiriadau a thâl post. Dylech hefyd rhoi ystyriaeth i ddibrisiad cyfarpar fel cerbydau os y'u defnyddir ar gyfer eich busnes.

Ni ddylech ddidynnu unrhyw dyniadau, taliadau Treth Incwm neu ar gyfer cyfraniadau Dosbarth 2 neu Ddosbarth 4 sy'n daladwy ar gyfer eich hun.

Dylech gymryd i ystyriaeth swm neu werth unrhyw stoc rydych yn ei dynnu o'ch busnes ar gyfer eich defnydd personol.

Lle mae gennych hefyd enillion o waith enillydd cyflogedig yn yr un flwyddyn **a'r** enillion a ddangosir yng nghyfrifon y busnes fel derbyniadau'r busnes, gellir diystyru'r enillion hynny wrth gyfrifo'r enillion o'ch busnes hunangyflogedig.

Ar ôl derbyn amcangyfrif o'r hyn rydych yn debygol o'i ennill yn ystod y cyfnod 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012, efallai cymerwn i ystyriaeth eich enillion yn ystod y blynyddoedd cynt ac unrhyw newidiadau sydd wedi digwydd ers hynny.

Os gallwch ddangos bod disgwyl y bydd eich enillion net o hunangyflogaeth ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012 yn llai na £5,315, ni fydd yn rhaid i chi dalu cyfraniadau Dosbarth 2 a dylech wneud cais cyn gynted â phosib.

## Eich Tystysgrif Eithriad Enillion Bach

Os cymeradwyir eich cais, byddwn yn anfon Tystysgrif Eithriad Enillion Bach atoch. Bydd y dystysgrif yn dangos y cyfnod y mae'n ymdrin ag ef ac fel arfer bydd yn dod i ben ym mis Ebrill ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Daw'r dystysgrif fel arfer i rym o ddyddiad eich cais er gellir ei hôl-ddyddio hyd at 13 o wythnosau. Ni ellir ei chyflwyno i gynnwys unrhyw wythnos rydych wedi talu cyfraniad Dosbarth 2 amdani'n barod.

Mae'n bosibl, fodd bynnag, i chi gael ad-daliad o'r cyfraniadau rydych wedi eu talu eisoes - gweler *Cael ad-daliad* gyferbyn.

Gan mai dim ond hyd at 13 o wythnosau y gallwch ôl-ddyddio tystysgrif, byddwch yn parhau i fod yn agored i dalu cyfraniadau Dosbarth 2 ar gyfer unrhyw gyfnod o enillion bach nad ydyw'n dod o dan y dystysgrif. Efallai y byddwn yn penderfynu peidio â mynnu eich bod yn talu cyfraniadau Dosbarth 2 oedd yn ddyledus cyn dechrau'ch tystysgrif os oedd eich enillion hunangyflogedig yn is na'r terfyn eithrio ar gyfer y flwyddyn (6 Ebrill i 5 Ebrill) berthnasol. Byddwn yn gadael i chi wybod os yw hyn yn berthnasol i chi. Os ydych yn gwneud cais i adnewyddu ac mae eich enillion yn dal i fod yn ddigon isel anfonir tystysgrif newydd atoch.

## Cael ad-daliad

Mae'n bosibl cael ad-daliad o gyfraniadau Dosbarth 2 a dalwyd yn ystod cyfnod o enillion bach, er efallai nad ydych wedi gwneud cais i gael eich eithrio rhag bod yn agored ar yr amser cywir. Er enghraifft, os yw eich incwm hunangyflogedig net (hynny yw eich elw ar ôl didynnu treuliau) a enillwyd yn ystod y cyfnod 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011 yn llai na £5,075. Dylech ystyried yr effaith ar eich hawl i fudd-daliadau yn y dyfodol cyn gwneud cais am ad-daliad o gyfraniadau Dosbarth 2.

**Sut i wneud cais**

Os ydych yn meddwl fod gennych hawl i dderbyn ad-daliad, mae angen i **chi**, nid eich asiant, anfon y canlynol atom:

- llythyr wedi'i lofnodi sy'n datgan eich bod am dderbyn ad-daliad, a
- thystiolaeth o enillion ar gyfer y flwyddyn dreth berthnasol, er enghraifft
  - derbyniadau busnes
  - cyfrifon elw a cholled
  - rhyw fath o dystiolaeth arall sy'n dangos eich incwm.

**Peidiwch ag oedi i ysgrifennu atom gan y gellir anfon tystiolaeth yn hwyrach.**

**Nid** yw'r slip ateb CF10, sydd wedi ei gysylltu â'r ffurflen hon, yn gais am ad-daliad. Os ydych yn gwneud cais am ad-daliad neu am Eithriad Enillion Bach dangosir y cyfeiriad i'w ddefnyddio ar slip ateb CF10 ar waelod tudalen 4.

**Terfynau amser**

Mae yna derfynau amser caeth ar gyfer ad-daliadau.

Mae'n rhaid i chi wneud cais erbyn 31 Ionawr fan bellaf yn dilyn diwedd y flwyddyn dreth (6 Ebrill i 5 Ebrill) dan sylw.

Er enghraifft, mae'n rhaid hawlio ad-daliad o gyfraniadau Dosbarth 2 a dalwyd ar gyfer y cyfnod 6 Ebrill 2010 i 5 Ebrill 2011 ar ôl 5 Ebrill 2011 **ond cyn 31 Ionawr 2012**.

## Os ydych yn gyflogedig ac yn hunangyflogedig

Mae'r gyfraith yn gofyn eich bod yn bodloni pob rhwymedigaeth Yswiriant Gwladol fel cyflogai ym mhob cyflogaeth sydd gennych ac fel person hunangyflogedig.

Os ydych yn gweithio i gyflogwr yn ogystal â bod yn hunangyflogedig, efallai cewch ganiatâd i oedi talu rhai o'ch cyfraniadau Dosbarth 2 a/neu Ddosbarth 4. Gelwir hyn yn 'ohiriad'. Dylech ond wneud cais am ohiriad os disgwylir i'ch enillion hunangyflogedig net fod yn **uwch** na'r lefel eithrio enillion bach, sef £5,315.

Os disgwyliwch i'ch enillion hunangyflogedig i fod yn llai na'r £5,315, **nid** yw gohiriad yn gymwys ac efallai byddwch yn gymwys ar gyfer Eithriad Enillion Bach (SEE) a bydd angen i chi wneud cais.

I ddysgu am ohirio cyfraniadau Dosbarth 2 a/neu Ddosbarth 4, ewch i **www.hmrc.gov.uk** a rhowch *'CA72B Guidance Notes'* yn y cyfleuster chwilio.

## Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae Cyllid a Thollau EM yn Rheolydd Data o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998. Am ragor o wybodaeth ewch i **www.hmrc.gov.uk** a chwiliwch am y *Ddeddf Diogelu Data* o fewn y cyfleuster *Chwilio*.

Cyllid & Tollau EM

# Cais am eithriad rhag rhwymedigaeth ar gyfer cyfraniadau Dosbarth 2

Darllenwch y cyfarwyddyd amgaeedig cyn llenwi'r ffurflen hon gan ddefnyddio priflythrennau. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch ffoniwch y Ganolfan Gyswllt Gymraeg ar **0845 302 1489** neu ewch i **www.hmrc.gov.uk/selfemployed**

**Nid yw'r ffurflen hon yn gais am ad-daliad**

1 Cyfenw

2 Enw cyntaf

3 Enwau cyntaf eraill

4 Teitl (Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall) *nodwch*

5 Rhif Yswiriant Gwladol

6 Dyddiad geni *DD MM BBBB*

7 Pryd ddechreuodd eich hunangyflogaeth? *DD MM BBBB*

8 Cyfeiriad cartref

Cod post

9 Rhifau ffôn
Cartref

Symudol

10 Cyfeiriad busnes *os yn wahanol i 8*

Cod post

Rhif ffôn

11 Beth yw eich swydd pan yn hunangyflogedig?
*Os oes gennych fwy nag un swydd ac mae angen mwy o le arnoch rhowch fanylion o dan 'Gwybodaeth ychwanegol' ar dudalen 4.*

12 Beth yw eich enillion net **disgwyliedig** o hunangyflogaeth ar gyfer y cyfnod o 6 Ebrill 2011 i 5 Ebrill 2012? *Dylai hyn fod o dan £5,315.*

£

13 Os ydych wedi bod yn hunangyflogedig am fwy na 12 mis, beth yw'r flwyddyn dreth neu'r flwyddyn cyfrifyddu ddiwethaf y mae gennych ffigurau enillion ar ei chyfer? *Bydd yr wybodaeth a roddwch yn cael ei thrin yn gyfrinachol.*

O *DD MM BBBB*

I *DD MM BBBB*

Yn ystod y cyfnod hwnnw beth oedd cyfanswm eich enillion ar ôl didyniadau? *gweler tudalen 1*

£

14 A ydych chi am dalu cyfraniadau Dosbarth 2 yn wirfoddol?

Nac ydw ☐ Ydw ☐

**15** Os ydych yn gweithio ar gyfer un neu fwy o gyflogwyr rhowch amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn sy'n cychwyn 6 Ebrill 2011.

Enillion gros o gyflogaeth*

£

Enw'r cyflogwr

Enillion gros o gyflogaeth*

£

Enw'r cyflogwr

*Os yn fwy na £42,475 rhowch 'dros £42,475'.
*Os oes gennych fwy na dau gyflogwr rhowch fanylion o dan 'Gwybodaeth ychwanegol' gyferbyn.*

**Sicrhewch eich bod yn darllen y canlynol cyn i chi lofnodi a dyddio'r Datganiad yn rhan 16.**

Does dim rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth o enillion i gefnogi eich cais oni bai ein bod yn gofyn yn benodol amdani. Os bydd angen i ni weld tystiolaeth o'ch enillion, byddwn yn cysylltu â chi.

Yn unol â Rheoliadau (Cyfraniadau) Nawdd Cymdeithasol 2001, Rheoliad 44 (5)(a), bydd Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid a Thollau EM yn diddymu unrhyw benderfyniad i beidio â chasglu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 2 os oes datganiad enillion anwir wedi cael ei wneud ac/neu amodau sy'n effeithio ar y newid yn y penderfyniad hwn. Golyga hyn y bydd Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyllid a Thollau EM yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol i gasglu ôl-ddyledion cyfraniadau lle'n briodol.

**16** **Datganiad**

Rwyf wedi darllen y cyfarwyddyd ac yn datgan fod yr wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

**Llofnod**

**Dyddiad** *DD MM BBBB*

Datodwch y ffurflen hon ac anfonwch hi i:
Cyllid a Thollau EM
Canolfan Gyswllt Gymraeg
Tŷ Moelwyn
Tros Y Bont
Porthmadog
LL49 9AB.

**Cadwch y cyfarwyddyd er mwyn cyfeirio ato.**

## Gwybodaeth ychwanegol

Defnyddiwch hwn fel y lle ychwanegol efallai byddwch ei angen arnoch ar gyfer cwestiynau 11 ac 15.